Llunio ein Gweithlu i'r Dyfodol

# EICH DIWEDDARIAD MISOL AR DDYSGU A DATBLYGU

CYLCHLYTHYR WEDI'I LUNIO GAN Y TÎM ADDYSG, DIWYLLIANT A DATBLYGU SEFYDLIADOL

## YN Y RHIFYN HWN...

01 Cadetiaid Nyrsio RCN

02 Rhaglenni Rheoli, Sesiynau Galw Heibio Diogelwch Tân & MECC

03 Adborth Proses VBA, Cyn Ymddeol a Fframwaith AHP / HCSW

04 Sgiliau Cyfathrebu Uwch, Sgiliau Hyfforddi a Recriwtio yn Seiliedig ar Werthoedd

05 Arfarniad Yn Seiliedig Ar Werthoedd

06 Thrombo-emboledd Gwythiennol

07 Diweddariadau Allweddol

07 Prif Fanylion Cyswllt ECOD

Ar gyfer unrhyw ymholiadau, e-bostiwch CAV.ECOD@wales.nhs.uk neu defnyddiwch ActionPoint UltraLite

I drefnu lleoedd ar y cyrsiau mewngofnodwch ar ESR a dilynwch y cyfarwyddiadau

Mae'r Hwb ESR yn argymell defnyddio chwiliwr rhyngrwyd Google Chrome i gwblhau'r modiwlau e-ddysgu yn ESR

ECOD

RHIFYN WEDI'I AILDDYLUNIO 1 / AWST 2023

# CADETIAID NYRSIO RCN

Eleni, mae 44 o Gadetiaid Nyrsio RCN o Ysgol Uwchradd Fitzalan yng Nghaerdydd wedi ymuno â'r Bwrdd Iechyd i gael blas ar yrfa bosibl mewn nyrsio. Trwy gydol eu lleoliad, maent wedi dysgu am rai o wahanol feysydd gofal iechyd, gan gynnwys gwasanaethau bydwreigiaeth, nyrsio cymunedol, nyrsio deintyddol a nyrsio iechyd meddwl.



Daeth ein cydweithwyr gyda'r cadetiaid ar deithiau tywys i rai o'n meysydd clinigol a chawsant gyfle i ymarfer sgiliau gweithwyr cymorth gofal iechyd yn ein ward efelychu a oedd yn cynnwys gofal hylendid, mesur pwysedd gwaed a chynnal bywyd sylfaenol.

Mae Cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru yr RCN yn rhoi cyflwyniad i yrfaoedd posibl yn y maes nyrsio a phroffesiynau gofal iechyd eraill i bobl ifanc sydd rhwng 16 a 25 oed. Mae'r cynllun yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gyflawni astudiaethau academaidd a chael phrofiad ymarferol yn y sector gofal iechyd a'i nod yw arallgyfeirio ac ehangu mynediad i nyrsio a gyrfaoedd gofal iechyd eraill.





Ers y lleoliad cyntaf yr haf diwethaf, mae nifer o'r cadetiaid wedi parhau â'u camau cyntaf mewn gyrfa gofal iechyd ac wedi llwyddo i ennill lleoedd i astudio cyrsiau gofal iechyd yn y brifysgol.

Llunio ein Gweithlu i'r Dyfodol

## Sgiliau Camau Cyntaf i Reol & Sgiliau Rheoli Hanfodol


### Sgiliau Camau Cyntaf i Reol

Gynulleidfa Darged: Darpar reolwyr pobl, arweinwyr tîm a goruchwylwyr nad ydynt eto mewn rolau rheoli llinell ffurfiol ond sy'n ei ystyried fel cam nesaf yn eu gyrfa. Bydd y rhaglen hon yn eu helpu i gael mwy o ymwybyddiaeth o'u heffaith bersonol ac i ddechrau datblygu eu sgiliau rheoli.

### Sgiliau Rheoli Hanfodol

Y Gynulleidfa Darged: Y rhai sy'n newydd i reoli pobl yn BIP Caerdydd a'r Fro e.e. wedi symud i rôl yn ddiweddar lle mae pobl yn adrodd yn uniongyrchol iddynt neu sy'n newydd i'r sefydliad mewn rôl sydd â chyfrifoldebau rheoli llinell.

**Os hoffech gofrestru eich diddordeb mewn mynychu un o'r rhaglenni hyn, cliciwch yma neu sganiwch y cod QR:**





## Sesiynau Galw Heibio Diogelwch Tân

**Sicrhewch fod eich cydymffurfiaeth Diogelwch Tân yn gyfredol!**

### 2il Lawr, Adeilad Cochrane, Ysbyty Athrofaol Cymru

| | | |
|---|---|---|
| ~~23 Awst 2023~~ | ~~14:00 - 15:00~~ | Wedi'i ganslo |
| 19 Medi 2023 | 9:00 - 10:00 | |

### Y Ganolfan Addysg, Ysbyty Athrofaol Llandochau

| | |
|---|---|
| 02 Awst 2023 | 9:00 -10:00 |
| 06 Medi 2023 | 9:00 -10:00 |
| 04 Hydref 2023 | 9:00 -10:00 |
| 01 Tachwedd 2023 | 9:00 -10:00 |
| 06 Rhagfyr 2023 | 9:00 -10:00 |



**Does dim angen trefnu lle, dim ond ymuno ar y diwrnod!**

## Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC)

Mae BIP Caerdydd a'r Fro yn darparu hyfforddiant MECC, sy'n cynnig cyngor ymarferol ar sut i fanteisio ar sgyrsiau, a sut a ble i gyfeirio pobl i'w helpu i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hymddygiad.
Gwyddom fod mwyafrif y staff eisoes yn cael y mathau hyn o sgyrsiau yn rheolaidd. Fodd bynnag, bydd hyfforddiant MECC yn sicrhau bod dull gweithredu cyson ar draws y BIP.

Mae dwy lefel o hyfforddiant ar gael i aelodau staff BIP:

### Lefel Un

Trosolwg sylfaenol o sgwrs iach, cyflwyniad i'r sgiliau ymarferol, a gwybodaeth sylfaenol am y pynciau ffordd o fyw.
Yn addas i:
- Unrhyw un sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â phobl ac sydd eisiau gwybod mwy am MECC.
- Y rhai sydd eisoes yn cael sgyrsiau iach ond sydd eisiau sesiwn ddiweddaru.
- Cyn-ddysgu cyn mynychu hyfforddiant wyneb yn wyneb lefel 2.

Mae e-ddysgu ar gyfer lefel un ar gael drwy'r ddolen hon ac mae'n cymryd tua 40 munud i'w gwblhau.

### Lefel Dau

- Trosolwg byr o'r pynciau ffordd o fyw.
- Y ffocws ar ddatblygu sgiliau a thechnegau cyfweld ysgogol.
- Archwilio sut bydd y technegau'n cael eu cymhwyso'n ymarferol mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Yn addas iawn (ond nid yn unig) i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n dymuno cefnogi pobl i newid eu hymddygiad.

**Y dyddiadau sydd ar gael**
07 Medi 2023 - 9.30
Mae'r hyfforddiant wyneb yn wyneb hwn yn para 2.5 awr a bydd yn cael ei gynnal yn Nhŷ Coetir. I drefnu lle, cliciwch yma neu sganiwch y cod QR isod

Gwneud i bob cyswllt gyfrif
Making every contact count

Llunio ein Gweithlu i'r Dyfodol

## Adborth Proses VBA

Rydym yn gwerthuso'r broses Arfarnu yn Seiliedig ar Werthoedd (VBA) gyfredol a byddem yn gwerthfawrogi eich barn yn fawr!
Rhannwch eich meddyliau gonest anhysbys. Bydd y wybodaeth hon yn amhrisiadwy a bydd yn dylanwadu ar ein syniadau wrth symud ymlaen.

Cliciwch yma neu sganiwch y cod QR isod

## Cydymffurfiaeth â Fframwaith AHP & HCSW

Ydych chi'n Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd neu'n Weithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Band 2 - 4?

### Oeddech chi'n gwybod?

Rhaid i bob HCSW gydymffurfio â fframwaith sgiliau a gyrfa'r GIG

### Pa lefel cymhwyster sy'n gysylltiedig â gofal Iechyd y dylwn i ei chael?

BAND 2 - rhaid cael lefel 2
BAND 3 - rhaid cael lefel 3
BAND 4 - rhaid cael lefel 4

### Felly, beth sydd angen i chi ei wneud?

Anfonwch gopi o'ch Cymwysterau Gofal Iechyd lefel 2 neu 3 at Dîm Datblygu HCSW (ECOD) trwy e-bost neu dewch ag ef atom yn bersonol.

### Sut i gysylltu â ni

Ffôn: 02921 816924 / 826924
E-bost: cav.hcsw@wales.nhs.uk
Swyddfa: ECOD Canolfan Academaidd, Ysbyty Llandochau

## Cyn Ymddeol

Ydych chi'n ystyried ymddeol, neu oes gennych aelod o staff yn agosáu at oedran ymddeol?


Oeddech chi'n gwybod bod Caerdydd a'r Fro yn hwyluso cwrs cyn ymddeol, sy'n cael ei gynnal gan Affinity Connects?

'Helpu'r rhai yn y gweithle i wella eu dyfodol yn ariannol.'

**Trefnwch le ar gwrs heddi.**

29-Awst-2023
22-Medi-2023
19-Hyd-2023
03-Tach-2023
07-Rhag-2023

Cynhelir pob sesiwn rhwng 9:30am - 3:30pm ar yr 2il lawr, Adeilad Cochrane, Ysbyty Athrofaol Cymru



'Addysg ariannol a gwasanaethau cynghori ariannol rheoledig, wedi'u cynllunio'n benodol i helpu'r gweithlu cyfan i wneud penderfyniadau gwybodus am eu harian.'

I drefnu lle, e-bostiwch cav.ecod@wales.nhs.uk gyda'ch e-bost dewisol a'ch dyddiad dewisol.

## All Wales NHS survey!

The all Wales NHS staff survey is due to launch at the end of September. This is your opportunity tell us anonymously how you feel. CAV and the other health boards will be working closely with the Health Education & Improvement Wales to act on any learning.

Further information to follow.

ECOD

## Sgiliau Cyfathrebu Uwch Arweinwyr, Rheolwyr a Goruchwylwyr

Mae'r gweithdy undydd hwn wedi'i gynllunio i helpu pobl sy'n gweithio mewn rolau arwain, rheoli a goruchwylio. Byddant yn datblygu sgiliau cyfathrebu gwell, a fydd yn galluogi cyfathrebu gydag urddas a pharch yn ystod sgyrsiau anodd gyda chleifion, cydweithwyr a'r timau maent yn eu harwain a'u rheoli. Prif ffocws y diwrnod hwn yw rheoli staff ond mae'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch yn eu dysgu yn gallu cael eu trosglwyddo i ofal cleifion.

Erbyn diwedd y cwrs hwn, bydd yr ymgeisydd yn gallu:

- Cynnal gwerthusiad beirniadol o fodelau cyfathrebu ac urddas sy'n hwyluso cyfathrebu effeithiol
- Archwilio egwyddorion cyfathrebu pendant
- Gwerthuso a chymhwyso pecyn cymorth o wybodaeth, modelau a sgiliau cyfathrebu
- Myfyrio ar effaith eich ymddygiad / arddull cyfathrebu eich hun ar bobl eraill a thrafod sut y gall yr hunanymwybyddiaeth hon ddylanwadu'n gadarnhaol ar eraill a hyrwyddo cyfathrebu urddasol yn y gweithle
- Datblygu sgiliau i reoli'ch cyflwr emosiynol ac ymddygiad eich hun yn ystod sgyrsiau heriol
- Meithrin perthynas effeithiol mewn sefyllfaoedd anodd
- Trafod sut i reoli sgyrsiau anodd sy'n gysylltiedig â chymhwyso polisi Adnoddau Dynol

### Y dyddiadau sydd ar gael

14 Awst 2023
04 Medi 2023
16 Hydref 2023
27 Tachwedd 2023
22 Ionawr 2024

Cynhelir pob sesiwn yn Adeilad Cochrane, Ysbyty Athrofaol Cymru rhwng 9:30 a 16:30

**I drefnu lle ar unrhyw un o'r cyrsiau hyn, gwnewch hynny trwy hunan-gofrestru ar ESR. Cliciwch ar unrhyw un o enwau'r cyrsiau yn y teitlau i fynd at y cwrs yn ESR**

## Sgiliau Hyfforddi ar gyfer Rheolwyr

Mae'r sesiwn diwrnod llawn hon yn archwilio sut i ddefnyddio dull hyfforddi i gefnogi staff i fod y gorau y gallant fod. Fel rheolwr, goruchwyliwr neu arweinydd, gall gofyn y cwestiynau iawn gefnogi pobl i fod yn rhagweithiol, yn annibynnol a chael eu cefnogi i wneud y penderfyniadau iawn ar yr adeg iawn.

Yn y sesiwn ymarferol a rhyngweithiol hon byddwch yn archwilio sut i ddefnyddio'r sgiliau cyfathrebu gwell yr ydych wedi'u datblygu i ofyn cwestiynau allweddol a fydd yn helpu pobl i ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain, datblygu eu sgiliau eu hunain a newid eu hymddygiad a'u hagweddau.

### Y dyddiadau sydd ar gael

06 Tachwedd 2023
11 Rhagfyr 2023
19 Chwefror 2024

Cynhelir pob sesiwn yn Adeilad Cochrane, Ysbyty Athrofaol Cymru rhwng 9:00 a 17:00

Sylwch y bydd angen i chi fod wedi mynychu Sgiliau Cyfathrebu Uwch ar gyfer Arweinwyr, Goruchwylwyr a Rheolwyr cyn mynychu'r gweithdy hwn.

## Recriwtio Yn Seiliedig Ar Werthoedd

Mae Recriwtio yn Seiliedig ar Werthoedd (VBR) yn ddull o ddenu a recriwtio myfyrwyr, hyfforddeion a gweithwyr ar y sail bod eu gwerthoedd a'u hymddygiad yn cyd-fynd â rhai'r sefydliad. Nod y sesiwn hon yw rhoi'r sgiliau a'r offer i bob rheolwr recriwtio i gynnal proses recriwtio yn seiliedig ar werthoedd.

### Y dyddiadau sydd ar gael

20 Medi 2023 - 11:00 - MS TEAMS

Bydd pob sesiwn yn para 1.5 awr

Llunio ein Gweithlu i'r Dyfodol

**A ydych chi wedi cael eich Arfarniad Yn Seiliedig Ar Werthoedd (VBA)?**

ich cyfle CHI ydyw i gael sgwrs agored, adeiladol gyda'ch rheolwr / arfarnwr... Gallwch chi drafod gyda'ch gilydd ble rydych chi nawr yn eich rôl, ble rydych chi eisiau bod a sut i gael eich cefnogi i gyrraedd yno.

## Dyddiadau hyfforddi sydd ar gael:

**DRWY TEAMS:**

7 Medi 2023: 13:00 - 15:00

11 Hyd 2023: 10:00 - 12:00

## Trefnwch sesiwn drwy hunangofrestru ar ESR yma

Os ydych eisoes wedi mynychu hyfforddiant ac yr hoffech gael sesiwn ddiweddaru, cysylltwch â CAV.ECOD@wales.nhs.uk

Cliciwch yma neu sganiwch y cod QR am adnoddau allweddol

# Arfarniad Yn Seiliedig Ar Werthoedd

**Y CYFARFOD VBA:**

Dim ond un rhan o drafodaethau parhaus am eich datblygiad yw hwn... Mae angen i hyn ddigwydd NAWR gyda'ch rheolwr / arfarnwr felly sicrhewch eich bod yn trefnu dyddiad.

**ARATOI AR GYFER Y CYFARFOD VBA**

- ICwblhewch yr asesiad
- Casglwch ychydig o adborth
- Cwblhewch eich cyflawniadau yn erbyn amcanion y llynedd

**DATBLYGIAD CYFLOG - Gwybodaeth Bwysig**

- Gweithredu o fis Hydref 2022
- Bydd angen i chi wybod a oes disgwyl i chi gael cynyddran sy'n effeithio ar gyflog (cam cyflog) ar ôl y dyddiad hwn (na fydd yn digwydd bob blwyddyn oherwydd bandiau cyflog cywasgedig.)
- Os yw'n effeithio ar gyflog, bydd angen i chi gael cyfarfod datblygiad cyflog cyn dyddiad eich cynyddran (cam cyflog) i gytuno ar eich dyfarniad cyflog gyda'ch rheolwr.
- SYLWCH - un elfen bwysig o gael eich dyfarniad cyflog yw eich bod wedi cael VBA a'i fod wedi'i gofnodi ar ESR.

ECOD

Shaping Our Future Workforce

# Thrombo-emboledd Gwythiennol

**E-Ddysgu Staff GIG Cymru**

## Gwybodaeth

Mae Cronfa Risg Cymru wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu modiwlau hyfforddi e-ddysgu rhyngweithiol i gefnogi dealltwriaeth glinigol o'r broses o atal a chydnabod thrombo-emboledd gwythiennol. Mae'r modiwlau wedi'u dylunio a'u hadolygu gan arbenigwyr pwnc o fewn grŵp Thrombosis a Gafwyd yn yr Ysbyty Cymru Gyfan ac mae'r hyfforddiant yn ymwneud â phob agwedd ar ofal clinigol.

Mae'r pecyn wedi'i rannu'n fodiwlau:

• **Esbonio Clotiau Gwythiennol**
Mae hwn yn becyn ymgyfarwyddo sy'n addas ar gyfer yr holl staff gofal iechyd sy'n darparu gofal wyneb yn wyneb.

• **Thrombo-emboledd Gwythiennol**


- Mae hwn yn becyn hyfforddi manylach wedi'i anelu at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac mae wedi'i drefnu'n ddwy ran:
- Rhan 1 - Atal Thrombosis a Gafwyd yn yr Ysbyty
- Rhan 2 – Thrombosis Gwythiennau Dwfn: Asesiad Clinigol a Diagnosis

Datblygwyd y pecyn i gynnwys cwestiynau gwirio gwybodaeth i helpu clinigwyr i gadarnhau eu dealltwriaeth.
Mae'r pecyn e-ddysgu yn cael ei argymell ar gyfer holl staff GIG Cymru sydd â chysylltiad â chleifion a disgwylir i sefydliadau lleol benderfynu pa elfennau sy'n hanfodol ar gyfer y gwahanol grwpiau staff.
Mae'r pecyn ar gael trwy system Cofnod Staff Electronig y GIG (ESR). Mae canllaw ar gyrchu'r system gan ddefnyddio ESR wedi'i gynnwys.


Rydym yn croesawu adborth ar y pecyn e-ddysgu. Gellir cofnodi sylwadau ac adborth yn uniongyrchol ar y system e-ddysgu. Fel arall, gellir anfon adborth a sylwadau at welsh.riskpool@wales.nhs.uk

## Cael mynediad i'r Pecyn E-Ddysgu cymeradwy drwy ESR


1. Dylai defnyddwyr fewngofnodi i'r system ESR gan ddefnyddio eu manylion safonol a dewis 'My Learning' o'r ddewislen




2. Gellir dod o hyd i'r cwrs hwn drwy'r swyddogaeth chwilio trwy deipio 'venous', yna dewiswch 'Go




3. Bydd y cwrs yn cael ei restru
Dylai defnyddwyr ddewis 'enrol' a dilyn y cyfarwyddiadau




Mae'r codau QR hyn hefyd ar gael sy'n cyfeirio defnyddwyr i'r cwrs trwy ESR. I ddefnyddio'r cod QR, sganiwch ef. Yna dilynwch y camau syml hyn:
1. Dewiswch 'enrol';
2. 'Apply'
3. Dewiswch y botwm chwarae i ddechrau

Esbonio Clotiau Gwythiennol

Thrombo-emboledd Gwythiennol

Llunio ein Gweithlu i'r Dyfodol

# DIWEDDARIADAU ALLWEDDOL

Wythnos Dysgu i Oedolion 18-24 Medi!

I ddathlu wythnos dysgu i oedolion, bydd yr ECOD yn cynnal ac yn darparu hyfforddiant cryno yn rhithwir ac wyneb yn wyneb. Dewch â'ch cinio, dewch i ddysgu a chael hwyl! Cadwch lygad allan am fwy o wybodaeth!

Cyflawniad gwych! Hyd yma, mae gennym 450 o nyrsys rhyngwladol sydd wedi llwyddo yn eu OSCE ac wedi ymuno â'r BIP fel nyrsys cofrestredig

Mae Hyfforddiant Sefydlu HCSW bellach wedi symud i Lanisien! (Uned 4, Parc Tŷ Glas, Llanisien, CF14 5DU) Bydd eu prif swyddfa yn dal i fod yn y Ganolfan Academaidd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau.

**Sefydlu Corfforaethol**

Os hoffech gael gwybod pan fydd dyddiadau newydd ar gael ar gyfer Sefydlu Corfforaethol, cysylltwch â cav.ecod@wales.nhs.uk i gael eich ychwanegu at y rhestr ddosbarthu.

SYLWCH: rhaid cynnwys cyfeiriad e-bost ar gyfer yr aelod o staff wrth drefnu lle a bydd angen creu cofnod ar ei gyfer ar ESR.

**Dilynwch ni ar Twitter! @CAV_ECOD**

Llunio ein Gweithlu i'r Dyfodol

# PRIF FANYLION CYSWLLT ECOD

| | | |
|---|---|---|
| **Amelia Clark** | • Hyfforddi/ Mentora<br>• Rheoli Talent | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47833<br>E-bost: Amelia.Clark@wales.nhs.uk |
| **Carrie Bodman** | • Addysg Nyrsys ac Ymholiadau TNA<br>• Cyllid Ymarfer Uwch<br>• Cyllid Presgripsiynu Anfeddygol | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47835<br>E-bost: Carrie.Bodman@wales.nhs.uk |
| **Ffion Jenkins** | Pwynt Cyswllt ar gyfer NMPP | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47838<br>E-bost: ffion.jenkins2@wales.nhs.uk |
| **Kate Powell** | • Gweinyddiaeth ar gyfer Sgiliau Clinigol<br>• Cyn Ymddeol | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47834<br>E-bost: CAV.ECOD@wales.nhs.uk |
| **Meg McNaughton** | • Ymholiadau Cadw Lle ar y Cwrs<br>• Ymholiadau Cyffredinol<br>• Archebu Ystafelloedd<br>• Sefydlu Corfforaethol | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47834<br>E-bost: CAV.ECOD@wales.nhs.uk |
| **Melanie Jones** | Pwynt Cyswllt ar gyfer AP & OSCE | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47834<br>E-bost: melanie.jones5@wales.nhs.uk |
| **Suzanne Gardner** | • Prentisiaethau<br>• Ymholiadau Arweinyddiaeth a Rheolaeth<br>• Recriwtio yn Seiliedig ar Werthoedd ac Arfarn<br>• Sgiliau Cyfathrebu Uwch ar gyfer Arweinwyr, Goruchwylwyr a Rheolwyr | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47460<br>E-bost: Suzanne.Gardner@wales.nhs.uk |
| **ESR Hub** | Ymholiadau am Fewngofnodi neu Gyfrinair | Rhif Ffôn: 029 20905400 |

Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sydd â diddordeb mewn ymgymryd â hyfforddiant nyrsio; trafodwch gyda'ch rheolwr llinell a fydd yn eich cyfeirio at Nyrs Datblygu Ymarfer/Addysgwr Ymarfer eich cyfarwyddiaeth

| | | |
|---|---|---|
| **Nicola Giles** | • Ymholiadau Addysg HCSW<br>• Trefniadau Ymsefydlu HCSW | Rhif Ffôn: (029 21 8) 26924<br>E-bost: Nicola.Giles@wales.nhs.uk |
| **Rob Ledsam** | Cyswllt Cwrs ar gyfer Tystysgrif Addysg Uwch Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd | Rhif Ffôn: (029 21 8) 26932<br>E-bost: Robert.Ledsam@wales.nhs.uk |
| **Violet Thomas** | Datblygiad HCSW | Rhif Ffôn: (029 21 8) 25982<br>E-bost: Violet.Thomas@wales.nhs.uk |
| **Practice Facilitator Hub** | | Rhif Ffôn: UHW (029 21 8) 42053<br>UHL (029 21 8) 25595 |